# Heinz Koppel

## Nodiadau Athrawon

Mae'r wers hon yn archwilio'r artist Iddewig a aned yn Berlin, Heinz Koppel, a fu'n byw yng Nghymru. Mae myfyrwyr yn archwilio gwahanol ffynonellau i gael dealltwriaeth o fywyd ac arddull artistig yr artist. Mae'r wers hon yn defnyddio elfennau o Ddrama a Symud, felly mae'n well ei chyflwyno mewn gofod mawr fel stiwdio Ddrama.

**Rhybudd cynnwys**: mae'r adnodd a ddefnyddir yn y wers hon yn sôn am lofruddiaeth mam Heinz Koppel yng Ngwersyll Difa Treblinka.

## Cysylltiadau cwricwlwm

**Cyfnod Allweddol 4**
Hanes, Celf a dylunio

**Cynllun Gwers**

NODAU DYSGU:

- Archwilio paentiad trwy theatr gorfforol a symud.
- Gallu tynnu ystod o ffynonellau at ei gilydd i ddeall rhai o gymhlethdodau byw yng Nghymru fel artist oedd yn ffoadur Iddewig.

OFFER ANGEN:

- Trawsgrifiad o'r clip sain[1] (Gweler tudalen 5).
- Bywgraffiad Heinz Koppel (Gweler tudalen 4).
- Bwrdd gwyn.

MAN CYCHWYN

Er mwyn cynhesu'r grŵp ac i gyflwyno'r dasg ymarferol yn y prif weithgaredd, mae'r myfyrwyr i gerdded o gwmpas y gofod. Rydych chi'n galw rhif allan a bydd y myfyrwyr yn ffurfio grŵp o'r rhif hwnnw (gall unrhyw un sydd dros ben ymuno â grŵp fel rhywbeth ychwanegol). Unwaith y bydd y myfyrwyr yn y grŵp, rydych chi'n galw 'M' ac mae'r myfyrwyr i ddod o hyd i ffordd i greu siâp y llythyren honno gyda'u cyrff. Mae hyn yn parhau hyd nes y caiff M-E-R-T-H-Y-R-B-L-U-E-S ei sillafu. Efallai y byddwch am gyflymu wrth i amser fynd rhagddo i gadw'r egni i lifo. Gofynnwch i'r grŵp – beth mae hyn yn ei sillafu? I beth ydych chi'n meddwl y gallai fod yn berthnasol?

DATBLYGU

Gwrandewch ar hanes llafar Harry Weinberger yn sôn am ei gefnder a'i gyd-artist Heinz Koppel.

Darllenwch gofiant Heinz Koppel ac edrychwch ar ei waith celf *'Merthyr Blues'*.

Trafodwch ymatebion y grŵp i'r ffynonellau hyn. Pa bethau oedd yn sefyll allan iddyn nhw?

Efallai yr hoffech chi dynnu sylw at:
- Teimladau Heinz Koppel fel rhywun o'r tu allan.
- Y trawma o golli ei fam a ffoi o'i gartref.
- Ei fywyd fel athro yn gystal ag fel arlunydd.
- Ei ffocws ar dirweddau a threfi lleol Cymru.
- Y 'gogwydd seicolegol a dadansoddol' oedd ganddo at ei waith.

PRIF RAN Y WERS

Tafluniwch y llun *'Merthyr Blues'* ar y bwrdd gwyn.

[1]Fe wnaethom ychwanegu trawsgrifiad y clip sain, y gallwch ddewis ei rannu gyda'ch myfyrwyr os ydych yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiad yn Gymraeg a Saesneg tra bod y clip yn Saesneg yn unig.

Fel grŵp cyfan, bydd y myfyrwyr yn ail-greu paentiad *'Merthyr Blues'*. Gellir gwneud hyn gyda myfyrwyr yn mynd i mewn i'r gofod fesul un neu mewn grwpiau bach a mabwysiadu safle. Er enghraifft, gallai'r myfyriwr cyntaf gymryd safle'r fenyw yn gwthio'r pram. Nesaf, gallai grŵp o tua phedwar o fyfyrwyr greu siâp yr adeilad y tu ôl iddi gan ddefnyddio eu cyrff. Mae'r broses hon yn parhau nes bod yr holl fyfyrwyr wedi ymuno â'r ddelwedd. Nid oes cywir nac anghywir yma. Gadewch i'r myfyrwyr archwilio'r paentiad yn greadigol gyda'u cyrff yn y gofod ac annog arsylwi a rhyngweithio ag eraill.

Y cam nesaf yw dod â'r ddelwedd yn fyw gyda deg eiliad o symud. Sut gallai gwahanol rannau'r paentiad ryngweithio? Efallai y gallech chi chwarae rhywfaint o gerddoriaeth glasurol yma i gyd-fynd â'r symud, ee Władysław Szpilman https://www.youtube.com/watch?v=pOC2CIsyzk0 – neu enghraifft arall addas.

I gael gwybodaeth am Władysław Szpilman gweler:
https://en.wikipedia.org/wiki/W%C5%82adys%C5%82aw_Szpilman?msclkid=d2695a4db7f211ec9ffd01d2318afee0 .

CYFAN

Gofynnwch i'r grŵp fyfyrio ar eu profiadau yn y wers hon:
- Beth maen nhw wedi'i ddysgu am Heinz Koppel?
- Ydyn nhw'n gallu gweld enghreifftiau lle gallai ei brofiadau bywyd fod wedi cael eu harchwilio yn ei gelfyddyd?

**Heinz Koppel - Bywgraffiad**

Ganed yr artist Heinz Koppel i rieni Iddewig yn Berlin ym 1919. Wedi i'r Natsïaid ddod i rym yn yr Almaen, ymfudodd y teulu i Prague, Tsiecoslofacia, a ffoi yn ddiweddarach i'r Deyrnas Unedig yn 1938. Sefydlodd ei dad, Joachim Koppel, y ffatri Aero Zipp yn Nhrefforest lle’r oedd yn gweithio ac astudiodd Heinz gelf yn Llundain. Roedd gan ei fam, Paula, arthritis difrifol ac nid oedd yn gallu gadael gyda gweddill y teulu; cafodd ei llofruddio yn y diwedd yng Ngwersyll Difodi Treblinka. Roedd ei gefnder, Harry Weinberger, oedd hefyd wedi ffoi o Tsiecoslofacia, hefyd yn arlunydd ac roedd ganddyn nhw'r un athro yn Llundain.

O 1944, bu Heinz yn byw yn Nowlais ger Merthyr Tudful lle bu'n dysgu celf i blant ac oedolion. Ysbrydolwyd ei weithiau celf gan y wlad o gwmpas ac ardaloedd diwydiannol Cymru. Ym 1949, priododd ei gyd-artist Renate Fischl a buont yn byw gyda'u plant yn Llundain a Lerpwl cyn ymgartrefu o'r diwedd yng Nghwmerfyn, ger Aberystwyth. Roedd yn un o’r aelodau a sefydlodd Grŵp 56 Cymru, sefydliad artistiaid gyda’r nod o hybu celf ac artistiaid Modernaidd Cymru. Bu farw Heinz yn 1980 yn 61 oed.

Mae’r paentiad, *Merthyr Blues*, hwn gan Heinz Koppel yn bortread o Ferthyr Tudful ym 1955. “Mae’r arddull yn ysgogi cymhariaeth â chartwnau papur newydd. Gwraig yn gwthio ei phram heibio'r hen ddepo bysus, mae dyn ar ysgol yn gludo hysbyseb am bowdr golchi Daz, tra bod cŵn yn camymddwyn ar y stryd. Mae’r gantores blŵs leol, sy’n hofran uwchben y dref yng nghwmni geiriau ei chân, yn cynnig ymdeimlad o obaith ac iachawdwriaeth i’r byd bob dydd islaw.”[2]

[2] Art UK, *Merthyr Blues, Heinz Koppel (1919-1980)* , Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd < https://artuk.org/discover/artworks/merthyr-blues-162225/search/actor:koppel-heinz-19191980-68749/page/1/view_as/grid > [cyrchwyd 9 Ebrill 2022].

## Trawsgrifiad

**Mae Harry Weinberger yn siarad am ei gefnder a'i gyd-artist Heinz Koppel**

Roedd gan Heinz [Koppel] bob amser lawer mwy o ddiddordeb na minnau mewn dadansoddi gwaith ac roedd ganddo duedd seicolegol bob amser a oedd yn gorfod adlewyrchu rhai cyflyrau meddwl ymwybodol iawn... cyflyrau meddwl mewnol ymwybodol iawn—mae hynny'n swnio'n ofnadwy os dywedaf felly—ond roedd yn fewnblyg iawn ac yn ddadansoddol iawn am bopeth, nid dim ond ei waith.

Ac roedd ganddo ddwylo a bysedd tyner iawn, ac roedd yr un tynerwch i'w weld yn ei waith. Ac roeddwn i'n meddwl ei fod yn eithaf unigryw.

[...]

Roeddem ni ein dau yn teimlo oherwydd ein cefndir a phopeth oedd wedi digwydd, ein bod ni'n bobl o'r tu allan ac na allem ni rywsut gael ein derbyn gan y mudiad celf.

[...]

Ac yna prynodd hen fferm yng Nghymru, ac o'r diwedd gadawodd ddysgu ac ymgartrefu yng Nghymru ar y fferm honno, a'i throi'n ymerodraeth fach ei hun, lle cynhyrchodd baentiadau hynod ddiddorol a chywrain yr oeddwn yn eu hoffi'n fawr.